



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Cyllideb Atodol

2021-2022

Nodyn Esboniadol  
Mehefin 2021



## Cynnwys

---

<b>1. Rhagymadrodd</b>	<b>2</b>
<b>2. Dyraniadau Allweddol</b>	<b>3</b>
<b>3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2020-21 8</b>	
<b>4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion</b>	<b>16</b>
<b>5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion</b>	<b>17</b>
<b>6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn</b>	<b>19</b>
<b>7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)</b>	<b>26</b>
<b>Atodiad 1 – Ailddatgan Cyllideb Derfynol 2021-22 i</b>	
<b>Adlewyrchu'r Newidiadau mewn Cyfrifoldebau Gweinidogol</b>	<b>28</b>
<b>Atodiad 2 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r</b>	
<b>Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb</b>	<b>52</b>
<b>Atodiad 3 – Geirfa</b>	<b>54</b>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon i:  
[wag-en@mailuk.custhelp.com](mailto:wag-en@mailuk.custhelp.com)

## 1. Rhagymadrodd

---

- 1.1** Heddiw cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2021-22, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 9 Mawrth 2021.
- 1.2** Ers cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol, ac yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2021 bu newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogol. Mae ffigurau llinell sylfaen y Gyllideb Derfynol yn y tablau yn y ddogfen hon wedi'u hailddatgan yn unol â'r Portffolios Gweinidogol newydd a gyhoeddwyd ar 13 Mai. Ceir manylion y llinellau sylfaen sydd wedi'u hailddatgan yn Atodiad 1.
- 1.3** Mae'r gyllideb atodol hon yn rheoleiddio dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt, trosglwyddiadau o fewn portffolios a rhyngddynt ac yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.
- 1.4** Mae'r gyllideb atodol hon yn adlewyrchu effaith ariannol barhaus pandemig y coronafeirws ac mae'r holl ddyraniadau allweddol wedi'u nodi'n fanwl ym Mhennod 2.
- 1.5** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2. Dyraniadau Allweddol

---

### Dyraniadau o Gronfa Wrth Gefn yr Ymateb i COVID-19

**2.1** Mae dyraniadau o gronfa wrth gefn yr Ymateb i COVID-19 wedi parhau ers i'r gyllideb derfynol gael ei chyhoeddi; mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu cyfanswm o **£706m** yn ymwneud â'r canlynol:

**Adferiad Iechyd - £100m**

**2.2** **£100m** i roi hwb i adferiad y system iechyd a gofal yn sgil y pandemig COVID-19. Bydd yr arian ar gyfer offer newydd, staff, technoleg a ffyrdd o weithio yn helpu'r byrddau iechyd i wella gwasanaethau ar draws gofal sylfaenol, cymunedol a gofal ysbyty, trwy gynyddu'r capasiti a thorri amseroedd aros wrth iddynt fynd ati eto i ddarparu gofal nad yw'n ofal argyfwng yn dilyn y pandemig.

**Rhyddhad Ardrethi Busnesau - £352.2m**

**2.3** **£352.2m** i roi i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch werth ardrethol o hyd at £500k, a rhoi i elusennau yng Nghymru **hoe syml am flwyddyn rhag talu ardrethi busnes** gan roi hwb hanfodol i fusnesau bach a chanolig sy'n ei chael yn anodd ymdopi ag effeithiau'r pandemig. Ar y cyd â'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, bydd hyn yn sicrhau y bydd dros 70,000 o fusnesau'n parhau i dalu dim ardrethi o gwbl yn 2021-22. Bydd busnesau ac elusennau yn y sector hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o dros £500k hefyd yn cael rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer 2021-22.

**Cymorth i Fusnes yn y Dyfodol - £55m**

**2.4** **£55m** i helpu'r busnesau hynny sydd wedi'u heffeithio o hyd gan gyfyngiadau COVID-19, i dalu costau rheolaidd hyd at ddiwedd mis Mehefin wrth iddynt baratoi i ailagor ac amodau masnachu mwy arferol. Mae'r busnesau a fydd yn elwa yn cynnwys:

- clybiau nos a lleoliadau adloniant hwyr y nos;
- lleoliadau ar gyfer digwyddiadau a chynadleddau nad ydynt wedi'u cwmpasu gan Gronfa Adfer Diwylliannol y Llywodraeth;
- busnesau lletygarwch a hamdden, gan gynnwys bwytai, tafarnau a chaffis;
- busnesau cadwyn gyflenwi y mae cyfyngiadau wedi cael effaith sylweddol arnynt.

### Dysgu, Adfer a Chynnydd - £39.15m

**2.5** **£39.15m** i gefnogi dysgwyr fel rhan o'r ymateb tuag at adfer a chynnydd ers y pandemig. Mae'r cyllid hwn, yn ogystal â'r £33m a ddyrannwyd yn 2020-21 yn darparu **£72m yn ychwanegol i gefnogi dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol**. Bydd y cyllid yn cynnwys parhad y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i mewn i'r flwyddyn academaidd nesaf, adnoddau dysgu ychwanegol a chymorth i ddysgwyr y cyfnod sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant sy'n darparu addysg gynnar. Caiff cymorth ei dargedu hefyd at ddysgwyr ym mlynnyddoedd 11, 12 a 13, i ddarparu cymorth ychwanegol wrth iddynt symud ymlaen i'r cyfnod nesaf. Caiff cyllid ei ddefnyddio i gefnogi 1,400 o athrawon o dan hyfforddiant sydd mewn addysg gychwynnol i athrawon ar hyn o bryd, gan eu galluogi i gwblhau eu profiad ymarferol yn yr hydref, cwblhau eu cymwysterau a symud i addysgu amser llawn.

### Pontio ôl-16 a dal i fyny - £33m

**2.6** **£33m** i gefnogi dysgwyr mewn colegau a dosbarthiadau chweched dosbarth ledled Cymru. Caiff y cyllid ei rannu rhwng darparwyr addysg ôl-16, gyda £24m ar gyfer colegau addysg bellach a £9m ar gyfer chweched dosbarth ysgolion. Bydd yn cefnogi amser addysgu ychwanegol, yn y dosbarth a chymorth unigol, y gellir ei addasu i anghenion dysgwyr 16-19 amser llawn unigol sy'n dechrau ar eu Safonau UG, Safonau Uwch neu gyrsiau galwedigaethol naill ai mewn chweched dosbarth neu goleg AB.

### Plant a Phobl Ifanc - £5m

- 2.7** **£5m** i helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol a gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, gan eu helpu i feithrin eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol eto yn Gymraeg a Saesneg. Caiff pob awdurdod lleol gyfran o'r cyllid i lwyfannu gweithgareddau yn eu hardaloedd fel rhan o'r rhaglen Haf o Hwyl. Gyda'r cyllid hwn rydym yn darparu £450k rhwng Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i'w galluogi i datblygu cyfres o ymarferion peilot yn edrych ar sut i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol o gwmpas y diwrnod ysgol.

### Addysg Awyr Agored - £2m

- 2.8** **£2m** i roi cymorth i'r sector addysg awyr agored breswyl yng Nghymru. Bydd y pecyn cyllido yn rhoi cymorth i ganolfannau cymwys ledled Cymru i dalu costau gweithredu hanfodol yn ystod y cyfnod mis Mehefin i fis Medi 2021.

### Y Gronfa Adfer Diwylliannol - £30m

- 2.9** **£30m** i ymestyn y Gronfa Adfer Diwylliannol a chefnogi sector diwylliannol amrywiol Cymru drwy'r pandemig. Mae'r gronfa hon yn cael ei chyflenwi ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r awdurdodau lleol ac fe roes gymorth gwerth dros £60 miliwn i theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, digwyddiadau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, sinemâu annibynnol a gweithwyr llawrydd yn 2020-21.

### Adnewyddu a Diwygio Addysg - £19.25m

- 2.10** **£19.25m** i roi cymorth i addysg a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar. Caiff y cyllid ei ddefnyddio i sicrhau bod plant yn parhau i wneud cynnydd yn eu haddysg yn dilyn yr aflonyddwch oherwydd y pandemig gyda chanolbwynt ar lesiant y plant a'r staff. Bydd £13m ar gyfer cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr y blynyddoedd cynnar, a hynny mewn

ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Caiff £6m yn ychwanegol ei ddyrannu i ysgolion i gefnogi staff addysgu, i hyrwyddo llesiant a chynnydd ac i ehangu ar y newidiadau cadarnhaol sydd eisoes wedi'u gwneud i ffyrdd o weithio.

#### Cymorth i Wasanaethau Rheilffyrdd - £70m

- 2.11** £70m o gymorth refeniw i Reilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, i helpu i dalu costau gweithredu o fis Medi tan ddiwedd mis Tachwedd, tra bo niferoedd teithwyr a phrisiau teithio'n dal yn ansicr.

#### Dyraniadau eraill o gronfeydd wrth gefn

##### Y Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol - £26m

- 2.12** £26m i lansio [Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol](#) i Gymru sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr, pobl ifanc, addysgwyr a staff o'r flwyddyn academaidd 2022/23 tan 2027. Mae'r cyllid hwn yn rhan o gyfanswm buddsoddiad o £65m. Bydd y rhaglen yn creu ystod eang o gyfnewidfeydd addysgol rhyngwladol gan gynnwys symudedd corfforol a phartneriaethau strategol, gan sicrhau bod yr holl fuddion y mae dysgwyr a staff wedi'u mwynhau yn y gorffennol o Raglen Erasmus+ yn dal i fod ar gael yn y dyfodol.

##### Maes Awyr Caerdydd - £16m

- 2.13** Buddsoddiad o £16m, gan gynnwys refeniw o £11m a chyfalaf o £5m i [gefnogi Maes Awyr Caerdydd](#). Mae'r cyllid hwn yn rhan o gyfanswm grant o £42.6m i galluogi Maes Awyr Caerdydd i ailstrwythuro ei weithrediadau a diogelu ei hyfywedd hirdymor.

##### Y Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr - £8.7m

- 2.14** £8.7m i ymestyn y [Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr](#) a fydd bellach yn para tan 30 Medi. Gall busnesau hawlio hyd at £4,000 ar gyfer pob



prentis newydd sy'n cael ei hurio o dan 25 oed a £2,000 i bob prentis newydd o dan 25 oed a gyflogir am lai na 30 awr yr wythnos.

**Archif Ddarlledu Genedlaethol - £1m**

**2.15** Cyfalaf o **£1m** i gefnogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru i datblygu **Archif Ddarlledu Genedlaethol** i Gymru.

### **3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2020-21**

- 3.1** Mae Tablau 3.1 i 3.4 yn amlinellu effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl y Prif Grwpiau Gwariant (MEG).

**Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru**

ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Derfynol 2021-22	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Mehefin 2021
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
<b>CYLLIDO ADNODDAU</b>			
<b>Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):</b>			
Cyllidol	14,848,780	1,388,399	16,237,179
Anghyllidol	690,064	829,896	1,519,960
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	125,000	0	125,000
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):</b>			
Cyllidol	27,915	0	27,915
Anghyllidol	149,934	0	149,934
<b>Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:</b>			
Ardrethi Annomestig	1,101,000	-379,500	721,500
Cyfradd Treth Incwm Cymru	2,064,061	0	2,064,061
Treth Trafodiadau Tir	230,998	49,217	280,215
Treth Gwarediadau Tirlenwi	32,728	1,622	34,350
Prif ad-daliad o'r benthyciad	-2,417	0	-2,417
<b>CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU</b>	<b>19,268,063</b>	<b>1,889,634</b>	<b>21,157,697</b>
<b>CYLLIDO CYFALAF</b>			
<b>Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):</b>			
Cyffredinol	2,392,686	69,664	2,462,350
Trafodiadau Ariannol	138,134	9,570	147,704
<b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):</b>			
Cyfalaf	968,961	0	968,961
<b>Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:</b>			
Benthyca	150,000	0	150,000
<b>CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF</b>	<b>3,649,781</b>	<b>79,234</b>	<b>3,729,015</b>
<b>CYFANSWM CYLLIDO CYMRU</b>	<b>22,917,844</b>	<b>1,968,868</b>	<b>24,886,712</b>

**Tabl 3.2 – Dyranu Cyllideb Cymru**

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd		
	Cyllideb Derfynol 2021-22 (wedi'i hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Mehefin 2021-22
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,763,962	128,319	9,892,281
Cyllid a Llywodraeth Leol	5,476,516	-27,400	5,449,116
Y Gymraeg ac Addysg	2,739,363	518,962	3,258,325
Newid Hinsawdd	2,604,162	125,542	2,729,704
Yr Economi	553,792	90,592	644,384
Materion Gwledig	356,305	0	356,305
Cyfiawnder Cymdeithasol	150,124	1,622	151,746
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	324,374	843	325,217
<b>Cyfanswm y Dyranid i MEG Llywodraeth Cymru</b>	<b>21,968,598</b>	<b>838,480</b>	<b>22,807,078</b>
Adnoddau heb eu Dyranu	Adnoddau Cyllidol	609,526	1,264,917
	Adnoddau Anghyllidol	149,515	554,431
Cyfalaf heb ei glustnodi	Cyffredinol	56,669	114,026
	Trafodiadau Ariannol	54,841	67,565
Comisiwn y Senedd	62,914	0	62,914
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5,110	0	5,110
Swyddfa Archwilio Cymru	8,148	0	8,148
Y Comisiwn Etholiadol	1,750	0	1,750
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	773		773
<b>CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU</b>	<b>22,917,844</b>	<b>1,968,868</b>	<b>24,886,712</b>

**Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau Adnoddau MEG Llywodraeth Cymru**

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	CYLLIDOL			ANGHYLLIDOL		
	Cyllideb Derfynol 2021-22 (wedi'i hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Mehefin 2021	Cyllideb Derfynol 2021-22 (wedi'i hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Mehefin 2021
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,041,822	128,319	9,170,141	186,137	0	186,137
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,166,107	352,100	4,518,207	212	0	212
Y Gymraeg ac Addysg	1,535,872	131,982	1,667,854	111,168	386,980	498,148
Newid Hinsawdd	780,405	78,699	859,104	201,121	38,000	239,121
Yr Economi	368,371	89,892	458,263	11,598	0	11,598
Materion Gwledig	330,145	0	330,145	11,554	0	11,554
Cyfiawnder Cymdeithasol	101,677	1,622	103,299	169	0	169
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	291,795	1,233	293,028	16,000	0	16,000
<b>Cyfanswm y Dyraniad i MEG Llywodraeth Cymru</b>	<b>16,616,194</b>	<b>783,847</b>	<b>17,400,041</b>	<b>537,959</b>	<b>424,980</b>	<b>962,939</b>

**Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru**

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	CYFALAF CYFFREDINOL			TRAFODIADAU ARIANNOL		
	Cyllideb Derfynol 2021-22 (wedi'i hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Mehefin 2021	Cyllideb Derfynol 2021-22 (wedi'i hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Mehefin 2021
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	387,600	0	387,600	0	0	0
Cyllid a Llywodraeth Leol	209,197	0	209,197	0	0	0
Y Gymraeg ac Addysg	269,780	0	269,780	1,968	0	1,968
Newid Hinsawdd	1,448,580	11,997	1,460,577	77,464	-3,154	74,310
Yr Economi	124,913	700	125,613	385	0	385
Materion Gwledig	14,606	0	14,606	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	16,887	0	16,887	3,476	0	3,476
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	13,579	-390	13,189	0	0	0
<b>Cyfanswm y Dyraniad i MEG Llywodraeth Cymru</b>	<b>2,485,142</b>	<b>12,307</b>	<b>2,497,449</b>	<b>83,293</b>	<b>-3,154</b>	<b>80,139</b>

- 3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod a gellir gweld manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn yn adran 6.

### **Addasiadau i Ffynonellau Cyllid**

#### **Adnoddau Cyllidol**

- 3.3** Cafwyd cynnydd net o 1,388,399k i'r llinell sylfaen Adnoddau Cyllidol gan gynnwys:

- Symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £1,347,018k gan gynnwys:
  - £735,315k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU ar gyfer y Gwanwyn 2021; a
  - £614,703k a ddaeth i law adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2021;
- Trosglwyddiad i mewn o £1,622k o Drysorlys EM mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
- Gostyngiad o £(2,935)k o ganlyniad i ailgyfrifo a chynnydd yn yr addasiad i'r grant bloc;
- Trosglwyddiadau allanol o gyfanswm o £(2,028)k i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn perthynas â'r rhaglen 'Adferiad Gwyrdd', a
- Trosglwyddiad o £100k allan i Drysorlys EM mewn perthynas ag ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am waith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig.

#### **Adnoddau Anghyllidol**

- 3.4** Ers y Gyllideb Derfynol, mae llinell sylfaen adnoddau anghyllidol wedi cynyddu £829,896k:

- £38,000k i adlewyrchu dadbrisiant ar linell graidd y cymoedd;
- Gostyniad net o £(2,580) yn ymwneud â symiau canlyniadol Barnett ym Mhrif Amcangyfrifon 2021-22; a
- £794,476k mewn perthynas â Benthyciadau i Fyfirwyr o ganlyniad i symiau canlyniadol Barnett sy'n deillio o gynnydd i gyllideb anghyllidol yr Adran Addysg.

### Cyllido Datganoledig Cymru

**3.5** Mae'r rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir wedi cynyddu £50,839k gan adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf a gyhoeddwyd gan [OBR](#). Er bod diweddariad OBR hefyd yn diwygio'r rhagolwg ar gyfer Cyfradd Treth Incwm Cymru (WRIT) ar gyfer 2021-22, mae'r refeniw o WRIT yn y gyllideb hon yn dal yn £2,064,061k fel yr adlewyrchir yn Rhagolwg Rhagfyr 2020 yn unol â'r [Fiscal Framework](#) y cytunwyd arno â Llywodraeth y DU. Mae lefel y gwariant gan yr awdurdodau lleol a ariennir trwy ardrethi annomestig wedi gostwng £375,900k i wrthbwysu'r rhyddhad ardrethi a ddarperir trwy'r DEL yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol.

### Cyfalaf Cyffredinol

**3.6** Cafwyd cynnydd o £69,664k yn llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol sydd wedi dod i law o ganlyniad i'r Prif Amcangyfrifon ym mis Mai 2021 ac yn cynnwys:

- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £21,054k;
- Cynnydd mewn ychwanegiadau nad ydynt yn rhai Barnett o £41,300k mewn perthynas â chyllid ar gyfer Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf;
- Cynnydd o £16,000k mewn perthynas â symiau a gafodd eu hailbroffilio o 2020-21; a
- Gostyngiad o £(8,690)k mewn perthynas â throsglwyddiadau i Adrannau eraill o'r Llywodraeth.

### Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**3.7** Mae'r llinell sylfaen sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol wedi cynyddu £9,570k oherwydd cyllid canlyniadol a dderbyniwyd o ganlyniad i'r Prif Amcangyfrifon ym mis Mai 2021.



**Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru**

<b>CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2021-22 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL</b>										
<b>£000oedd</b>										
<b>PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)</b>	<b>Adnoddau</b>			<b>Cyfalaf</b>			<b>AME</b>			<b>CYFANSWM DYRANIAD MEG</b>
	<b>Cyllidol</b>	<b>Anghyllidol</b>	<b>Cyfanswm Adnoddau</b>	<b>Cyffredinol</b>	<b>Trafodiadau Ariannol</b>	<b>Cyfanswm Cyfalaf</b>	<b>Adnoddau</b>	<b>Cyfalaf</b>	<b>Cyfanswm AME</b>	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,170,141	186,137	<b>9,356,278</b>	387,600	0	<b>387,600</b>	148,403	0	<b>148,403</b>	<b>9,892,281</b>
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,518,207	212	<b>4,518,419</b>	209,197	0	<b>209,197</b>	721,500	0	<b>721,500</b>	<b>5,449,116</b>
Y Gymraeg ac Addysg	1,667,854	498,148	<b>2,166,002</b>	269,780	1,968	<b>271,748</b>	<b>-148,386</b>	968,961	<b>820,575</b>	<b>3,258,325</b>
Newid Hinsawdd	859,104	239,121	<b>1,098,225</b>	1,460,577	74,310	<b>1,534,887</b>	96,592	0	<b>96,592</b>	<b>2,729,704</b>
Yr Economi	458,263	11,598	<b>469,861</b>	125,613	385	<b>125,998</b>	48,525	0	<b>48,525</b>	<b>644,384</b>
Materion Gwledig	330,145	11,554	<b>341,699</b>	14,606	0	<b>14,606</b>	0	0	<b>0</b>	<b>356,305</b>
Cyfiawnder Cymdeithasol	103,299	169	<b>103,468</b>	16,887	3,476	<b>20,363</b>	27,915	0	<b>27,915</b>	<b>151,746</b>
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	293,028	16,000	<b>309,028</b>	13,189	0	<b>13,189</b>	3,000	0	<b>3,000</b>	<b>325,217</b>
<b>CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEG LLYWODRAETH CYMRU</b>	<b>17,400,041</b>	<b>962,939</b>	<b>18,362,980</b>	<b>2,497,449</b>	<b>80,139</b>	<b>2,577,588</b>	<b>897,549</b>	<b>968,961</b>	<b>1,866,510</b>	<b>22,807,078</b>

## 4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

---

**4.1** Cafwyd pump o drosglwyddiadau rhwng portffolios y Gweinidogion yn y Gyllideb Atodol hon yn dod i gyfanswm o £10,693k. Mae'r manylion fel a ganlyn.

### Adnoddau Cyllidol

**4.2** Dau drosglwyddiad o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i MEG y Gymraeg ac Addysg gan gynnwys:

- £2,500k o'r BEL Cyllidebau eraill y GIG i BEL Cymorth i Fyfyrrwyr mewn perthynas ag ymestyn trefniadau Bwrsari GIG Cymru i fyfyrwyr sy'n dewis astudio pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd yng Nghymru; a
- £1,900k o'r BEL Cymorth i Ofal Plant a Chwarae i BEL y Cwricwlwm ac Asesu i gysoni'r gyfradd cyllido ar gyfer Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant, i sicrhau sefydlogrwydd y farchnad ac i ddarparu amgylchedd cyllido cyson i roi ein gweledigaeth hirdymor o gyflawni 'Gofal ac Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar'.

**4.3** Trosglwyddiad £43k o'r BEL Trechu Dadrithiad yn MEG y Gymraeg ac Addysg i'r BEL Gyrfa Cymru yn MEG yr Economi ar gyfer parhau i gyllido swydd neilltuol addysg yn y cartref yn Gyrfa Cymru i weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc a addysgir yn y cartref yn 2021-22; a

**4.4** Dau drosglwyddiad o MEG yr Economi i MEG y Gymraeg ac Addysg gan gynnwys:

- £4,500k o'r BEL Dysgu Seilledig ar Waith i'r BEL gwariant rhaglenni CCAUC mewn perthynas â Phrentisiaethau Gradd; a
- £1,750k o'r BEL Cyflogadwyedd a Sgiliau i'r BEL Darpariaeth Addysg Bellach mewn perthynas â Chyfrifon Dysgu Personol.

## 5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

---

**5.1** Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir yn adran 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng sawl BEL o fewn yr un portffolios ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y Tablau BEL cyhoeddedig. Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r MEG unigol.

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**5.2** Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £81,639k ac un trosglwyddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £4,000k wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gryno, mae'r trosglwyddiadau hyn:

- yn alinio'r dyraniadau i Fyrddau Iechyd Lleol yn gywir;
- yn alinio dyraniadau i ariannu ymrwymadau penodol; a
- yn darparu'r cyllid angenrheidiol i sefydlu'r corff newydd sef 'Iechyd a Gofal Digidol Cymru'.

### Y Gymraeg ac Addysg

**5.3** Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £5,004k wedi digwydd rhwng BELs o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg. Mae'r un mwyaf sylweddol o'r rhain yn ymwneud â:

- £4,432k a drosglwyddwyd o'r BEL Dyfarniadau Cymorth wedi'i Dargedu i Fyfyrrwyr i mewn i'r BEL Darpariaeth Addysg Bellach. Mae'r trosglwyddiad yn weinyddol ei natur ac yn adlewyrchu newid mewn cyfrifoldebau.

### Y Newid yn yr Hinsawdd

**5.4** Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £1,199k wedi digwydd rhwng BELs o fewn MEG y Newid yn yr Hinsawdd er mwyn alinio cyllidebau yn gywir.

## Yr Economi

**5.5** Mae dau drosglwyddiad adnoddau gwerth cyfanswm o £2,691k wedi digwydd rhwng BELs o fewn MEG yr Economi. Mae'r £2,691k wedi'i drosglwyddo i'r BEL Cyflogadwyedd a Sgiliau ac mae'n cynnwys:

- £1,556k o'r BEL Ymgysylltu Polisi Sgiliau er mwyn cyfuno'r cyllidebau; a
- £1,135k o'r BEL Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru.

## Materion Gwledig

**5.6** Mae dau drosglwyddiad adnoddau gwerth cyfanswm o £8,980k wedi digwydd o fewn y MEG Materion Gwledig. Maent yn cynnwys cyllid i ddisodli cyllid yr UE er mwyn cefnogi cynlluniau domestig newydd ac yn cynnwys y canlynol:

- £6,880k o BEL y Cynllun Datblygu Gwledig i BEL yr Economi gwledig a chynaliadwyedd ar gyfer y Rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy ac mewn ymateb i adolygiad BEW; a
- £2,100k o BEL y Cynllun Pysgodfeydd i'r BEL Pysgodfeydd.

## 6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

---

**6.1** Mae'r gyllideb hon yn unioni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt. Mae rhestr gyflawn i'w chael yn nhabl 6.1.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.2** Gwnaed cyfanswm o £705,600k o ddyraniadau o'r cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn mewn ymateb i COVID-19. Mae'r dyraniadau fel a ganlyn ac mae manylion llawn y llinellau gwariant y dyrannwyd yr arian iddynt wedi'u nodi yn nhabl 6.1:

• Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£ 104,550k
• Cyllid a Llywodraeth Leol	£ 352,200k
• Y Gymraeg ac Addysg	£ 91,400k
• Newid Hinsawdd	£ 70,000k
• Yr Economi	£ 87,450k

**6.3** Yn ogystal, gwnaed y dyraniadau canlynol, sef cyfanswm o £80,426k, i bortffolios o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
  - £28,169k i'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Y Gymraeg ac Addysg:
  - £26,000k i'r BEL Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol; a
  - £3,975k i'r BEL Dysgu i Droseddwyr mewn perthynas â HMP Berwyn;
- Newid Hinsawdd:
  - £10,727k i'r BEL Hedfanaeth mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd;

- Yr Economi:
  - £8,700k i'r BEL Dysgu Seiliedig ar Waith mewn perthynas â Phrentisiaethau;
- Cyfiawnder Cymdeithasol:
  - £1,622k i'r BEL Gwasanaethau Cyngori mewn perthynas â chyngor ar ddyledion;
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu:
  - £1,233k i'r BEL Seibergadernid,

### Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.4** Gwnaed cyfanswm o £2,179k o drosglwyddiadau i gronfeydd adnoddau cyllidol i fodloni costau trosglwyddiadau i Adrannau Llywodraeth eraill. Mae manylion llawn y trosglwyddiadau hyn ar gael yn nhabl 6.1 isod.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.5** Gwnaed dau ddyraniad, cyfanswm o £424,980k, o gronfeydd adnoddau anghyllidol yn y gyllideb atodol hon, sef:

- £386,980k i'r MEG Addysg a'r Gymraeg mewn perthynas â Benthyciadau Myfyrwyr; a
- £38,000k i'r MEG Newid Hinsawdd mewn perthynas â dibrisiant ar gyfer llinell graidd y cymoedd.

### Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.6** Gwnaed tri dyraniad, cyfanswm o £21,297k, o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon, sef:

- £20,297k i'r MEG Newid Hinsawdd;
  - £15,000k i adlewyrchu'r ffaith fod cyllid benthyciad ynni wedi'i ddwyn ymlaen yn sgil ailddosbarthu Salix Ltd; a
  - £5,297k mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd; a
- £1,000k i MEG yr Economi mewn perthynas â'r Archif Ddarlledu Genedlaethol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## Dyraniadau i'r Gronfa Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**6.7** Gwnaed un trosglwyddiad o £3,154k yn ôl i'r cronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon, a hynny o'r BEL Hedfanaeth yn y MEG Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r cymorth a roddwyd i Faes Awyr Caerdydd.

Mae tabl 6.1 isod yn adlewyrchu'r holl symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn.

**Tabl 6.1 - Newidiadau i Gronfeydd wrth gefn 2020-21 ers y Gyllideb Derfynol a'r Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn sy'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon**

	£000oedd						
	Adnoddau Cyllidol	Adnoddau Anghyllidol	Cyfanswm yr Adnodd	Cyfalaf Cyffredinol	Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Cyfanswm
<b>Cronfeydd wrth gefn adeg y Gyllideb Derfynol</b>	609,526	149,515	<b>759,041</b>	56,669	54,841	<b>111,510</b>	<b>870,551</b>
Trosglwyddiadau a symiau canlyniadol ers y Gyllideb Derfynol	1,388,399	829,896	<b>2,218,295</b>	69,664	9,570	<b>79,234</b>	<b>2,297,529</b>
Addasiadau i Ffynonellau Cyllid	(328,661)	0	<b>(328,661)</b>	0	0	<b>0</b>	<b>(328,661)</b>
<b>Cronfeydd Diwygiedig</b>	<b>1,669,264</b>	<b>979,411</b>	<b>2,648,675</b>	<b>126,333</b>	<b>64,411</b>	<b>190,744</b>	<b>2,839,419</b>
<b>Newidiadau:</b>							
<b>IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</b>							
<b>Dyraniadau COVID-19:</b>	<b>(104,550)</b>	<b>0</b>	<b>(104,550)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(104,550)</b>
Dyraniadau Craidd y GIG – Adferiad Iechyd	(100,000)	0	<b>(100,000)</b>	0	0	<b>0</b>	<b>(100,000)</b>
Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae - Plant a Phobl Ifanc/Haf o Hwyl	(4,550)	0	<b>(4,550)</b>	0	0	<b>0</b>	<b>(4,550)</b>
<b>Eraill:</b>	<b>(28,169)</b>	<b>0</b>	<b>(28,169)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(28,169)</b>
Cyllidebau eraill y GIG – y Gordal Iechyd Mewnfudo	(28,169)	0	<b>(28,169)</b>	0	0	<b>0</b>	<b>(28,169)</b>
<b>IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</b>	<b>(132,719)</b>	<b>0</b>	<b>(132,719)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(132,719)</b>



CYLLID A LLYWODRAETH LEOL							
<b>Dyraniadau COVID-19:</b>	<b>27,300</b>	<b>0</b>	<b>27,300</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>27,300</b>
Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi	(352,200)	0	(352,200)	0	0	0	(352,200)
Rhyddhad Ardrethi – Swm Dosbarthadwy – Gwariant a reolir yn Flynyddol	379,500	0	379,500	0	0	0	379,500
<b>Eraill:</b>	<b>100</b>	<b>0</b>	<b>100</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>100</b>
Trethi Datganoledig – Cost Darparu Rhagolygon Trethi	100	0	100	0	0	0	100
<b>CYLLID A LLYWODRAETH LEOL</b>	<b>27,400</b>	<b>0</b>	<b>27,400</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>27,400</b>
Y GYMRAEG AC ADDYSG							
<b>Dyraniadau COVID-19:</b>	<b>(91,400)</b>	<b>0</b>	<b>(91,400)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(91,400)</b>
Adolygu'r Cwricwlwm – Adewyddu a Diwygio Addysg	(6,250)	0	(6,250)	0	0	0	(6,250)
Datblygu a Chefnogi Athrawon – Pontio a Dal i Fyny	(6,650)	0	(6,650)	0	0	0	(6,650)
Darpariaeth Addysg Bellach – Pontio a Dal i Fyny	(41,500)	0	(41,500)	0	0	0	(41,500)
Grant Gwella Ysgolion – Pontio a Dal i Fyny ac Adnewyddu a Diwygio Addysg	(37,000)	0	(37,000)	0	0	0	(37,000)
<b>Eraill:</b>	<b>(29,975)</b>	<b>(386,980)</b>	<b>(416,955)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(416,955)</b>
Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol	(26,000)	0	(26,000)	0	0	0	(26,000)
Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrrwyr	0	(386,980)	(386,980)	0	0	0	(386,980)
Dysgu i Droseddwr – HMP Berwyn	(3,975)	0	(3,975)	0	0	0	(3,975)
<b>Y GYMRAEG AC ADDYSG</b>	<b>(121,375)</b>	<b>(386,980)</b>	<b>(508,355)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(508,355)</b>

NEWID HINSAWDD							
<b>Dyraniadau COVID-19:</b>	<b>(70,000)</b>	<b>0</b>	<b>(70,000)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(70,000)</b>
Trafnidiaeth Cymru – Cymorth i Wasanaethau Rheilffordd	(70,000)	0	(70,000)	0	0	0	(70,000)
<b>Eraill</b>	<b>(8,699)</b>	<b>(38,000)</b>	<b>(46,699)</b>	<b>(11,997)</b>	<b>3,154</b>	<b>(8,843)</b>	<b>(55,542)</b>
Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion – Cynllun Meithrin Capasiti eNGO a Rhwydweithiau Natur	2,028	0	2,028	8,300	0	8,300	10,328
Hedfanaeth – Maes Awyr Caerdydd	(10,727)	0	(10,727)	(5,297)	3,154	(2,143)	(12,870)
Trafnidiaeth Cymru – Dibrisiant Llinell Graidd y Cymoedd	0	(38,000)	(38,000)	0	0	0	(38,000)
Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru – dwyn ymlaen yn achos benthygiad Salix	0	0	0	(15,000)	0	(15,000)	(15,000)
<b>NEWID HINSAWDD</b>	<b>(78,699)</b>	<b>(38,000)</b>	<b>(116,699)</b>	<b>(11,997)</b>	<b>3,154</b>	<b>(8,843)</b>	<b>(125,542)</b>
YR ECONOMI							
<b>Dyraniadau COVID-19:</b>	<b>(87,450)</b>	<b>0</b>	<b>(87,450)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(87,450)</b>
Busnesau a Datblygu Economaidd Rhanbarthol – ERF ac Addysg Awyr Agored	(57,000)	0	(57,000)	0	0	0	(57,000)
Cyngor Celfyddydau Cymru – Adferiad Diwylliannol a Gweithgareddau Haf i Blant a Phobl Ifanc	(8,950)	0	(8,950)	0	0	0	(8,950)
Chwaraeon Cymru – Gweithgareddau Haf i Blant a Phobl Ifanc	(300)	0	(300)	0	0	0	(300)
Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol – Adferiad Diwylliannol	(21,200)	0	(21,200)	0	0	0	(21,200)
<b>Eraill:</b>	<b>(8,649)</b>	<b>0</b>	<b>(8,649)</b>	<b>(700)</b>	<b>0</b>	<b>(700)</b>	<b>(9,349)</b>
Cadw – Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	51		51	300		300	351

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Archif Ddarlledu Genedlaethol	0	0	0	(1,000)	0	(1,000)	(1,000)
Dysgu Seiliedig ar Waith – Prentisiaethau	(8,700)		(8,700)			0	(8,700)
<b>YR ECONOMI</b>	<b>(96,099)</b>	<b>0</b>	<b>(96,099)</b>	<b>(700)</b>	<b>0</b>	<b>(700)</b>	<b>(96,799)</b>
<b>CYFIAWNDER CYMDEITHASOL</b>							
<b>Eraill:</b>	<b>(1,622)</b>	<b>0</b>	<b>(1,622)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(1,622)</b>
Gwasanaethau Cynghori - Ardoll Ariannol ar gyfer Cyngor ar Ddyledion	(1,622)	0	(1,622)	0	0	0	(1,622)
<b>CYFIAWNDER CYMDEITHASOL</b>	<b>(1,622)</b>	<b>0</b>	<b>(1,622)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(1,622)</b>

<b>GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU</b>							
<b>Eraill:</b>	<b>(1,233)</b>	<b>0</b>	<b>(1,233)</b>	<b>390</b>	<b>0</b>	<b>390</b>	<b>(843)</b>
Gwariant Gweinyddol Cyffredinol – Cytundeb Geo-ofodol	0	0	0	390	0	390	390
Seibergadernid	(1,233)	0	(1,233)	0	0	0	(1,233)
<b>GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU</b>	<b>(1,233)</b>	<b>0</b>	<b>(1,233)</b>	<b>390</b>	<b>0</b>	<b>390</b>	<b>(843)</b>
<b>Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon</b>	<b>1,264,917</b>	<b>554,431</b>	<b>1,819,348</b>	<b>114,026</b>	<b>67,565</b>	<b>181,591</b>	<b>2,000,939</b>

## 7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

---

- 7.1** Roedd y cyllidebau AME y manylir arnynt yn y Gyllideb Derfynol yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf a ddarparwyr i Drysorlys EM.
- 7.2** Mae un addasiad wedi'i wneud ers cymeradwyo'r Gyllideb Derfynol:
- Mae'r gyllideb Rhyddhad Ardrethi Annomestig o fewn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol wedi'i leihau £379,500k i wrthbwysu'r cyllid DEL ychwanegol a ddarparwyd i'r MEG. Gwnaed y dyraniad DEL mewn ymateb i'r gostyngiad disgwylidig mewn refeniw ardrethi annomestig i lywodraeth leol o ganlyniad i COVID-19.

Mae tabl 7.1 isod yn yn nodi'r cyllidebau AME cyfredol.

**Tabl 7.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru**

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	ADNODDAU			CYFALAF		
	Cynlluniau Cyllideb Derfynol 2021-22 wedi'u Hailddatgan	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2021-22 Cynlluniau Newydd Mehefin 2021	Cynlluniau Cyllideb Derfynol 2021-22 wedi'u Hailddatgan	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2021- 22 Cynlluniau Newydd Mehefin 2021
Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol	148,403	0	148,403	0	0	0
Cyllid a Llywodraeth Leol	1,101,000	-379,500	721,500	0	0	0
Y Gymraeg ac Addysg	-148,386	0	-148,386	968,961	0	968,961
Newid Hinsawdd	96,592	0	96,592	0	0	0
Yr Economi	48,525	0	48,525	0	0	0
Materion Gwledig	0	0	0	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	27,915	0	27,915	0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	3,000	0	3,000	0	0	0
<b>Cyfanswm Dyraniad i Lywodraeth Cymru</b>	<b>1,277,049</b>	<b>-379,500</b>	<b>897,549</b>	<b>968,961</b>	<b>0</b>	<b>968,961</b>

## Atodiad 1 – Ailddatgan Cyllideb Derfynol 2021-22 i Adlewyrchu'r Newidiadau mewn Cyfrifoldebau Gweinidogol

Dyraniadau Cyllideb Derfynol 2021-22 cyn y Newidiadau mewn Cyfrifoldebau Gweinidogol										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	8,925,807	186,137	9,111,944	382,528	-	382,528	148,403	-	148,403	9,642,875
Tai a Llywodraeth Leol	4,411,441	381	4,411,822	728,465	65,806	794,271	1,130,517	-	1,130,517	6,336,610
Yr Economi a Thrafnidiaeth	615,568	192,436	808,004	807,163	13,766	820,929	127,515	-	127,515	1,756,448
Addysg	1,515,870	111,052	1,626,922	279,491	1,968	281,459	(148,386)	968,961	820,575	2,728,956
Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg	268,345	10,278	278,623	50,938	(227)	50,711	16,000	-	16,000	345,334
Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig	510,159	21,675	531,834	197,892	-	197,892	-	-	-	729,726
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	369,004	16,000	385,004	38,665	1,980	40,645	3,000	-	3,000	428,649
<b>CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU</b>	<b>16,616,194</b>	<b>537,959</b>	<b>17,154,153</b>	<b>2,485,142</b>	<b>83,293</b>	<b>2,568,435</b>	<b>1,277,049</b>	<b>968,961</b>	<b>2,246,010</b>	<b>21,968,598</b>

Dyraniadau Cyllideb Derfynol 2021-22 ar ôl y Newidiadau Mewn Cyfrifoldebau Gweinidogol										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,041,822	186,137	<b>9,227,959</b>	387,600	-	<b>387,600</b>	148,	-	<b>148,403</b>	<b>9,763,962</b>
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,166,107	212	<b>4,166,319</b>	209,197	-	<b>209,197</b>	1,101,000	-	<b>1,101,000</b>	<b>5,476,516</b>
Y Gymraeg ac Addysg	1,535,872	111,168	<b>1,647,040</b>	269,780	1,968	<b>271,748</b>	(148,386)	968,961	<b>820,575</b>	<b>2,739,363</b>
Newid Hinsawdd	780,405	201,121	<b>981,526</b>	1,448,580	77,464	<b>1,526,044</b>	96,592	-	<b>96,592</b>	<b>2,604,162</b>
Yr Economi	368,371	11,598	<b>379,969</b>	124,913	385	<b>125,298</b>	48,525	-	<b>48,525</b>	<b>553,792</b>
Materion Gwledig	330,145	11,554	<b>341,699</b>	14,606	-	<b>14,606</b>	-	-	-	<b>356,305</b>
Cyfiawnder Cymdeithasol	101,677	169	<b>101,846</b>	16,887	3,476	<b>20,363</b>	27,915	-	<b>27,915</b>	<b>150,124</b>
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	291,795	16,000	<b>307,795</b>	13,579	-	<b>13,579</b>	3,000	-	<b>3,000</b>	<b>324,374</b>
<b>CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU</b>	<b>16,616,194</b>	<b>537,959</b>	<b>17,154,153</b>	<b>2,485,142</b>	<b>83,293</b>	<b>2,568,435</b>	<b>1,277,049</b>	<b>968,961</b>	<b>2,246,010</b>	<b>21,968,598</b>

SYMUDIADAU										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
